# CYFARFODYDD YMGYSYLLTU

i drafod Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd



Dros y misoedd nesaf bydd cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd yn cynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu i drafod Polisi Iaith Addysg presennol Cyngor Gwynedd. Bydd y sesiynau hyn yn gyfle i drafod ac i gasglu syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â'r polisi ac i ystyried a oes angen ei ddiwygio yng ngoleuni canlyniadau Cyfrifiad 2021, a nifer o ddatblygiadau polisi ym maes iaith ac addysg ar y lefel gwasanaeth.

## 1. Cefndir

Mae gan Gyngor Gwynedd hanes hir o arloesi ym maes addysg Gymraeg a dwyieithog ac mae'r arloesi hwn wedi sicrhau fod pobl ifanc Gwynedd o fewn ysgolion yr awdurdod lleol wedi derbyn cyfleoedd eang i ddod yn rhugl ddwyieithog. Yng Ngwynedd bellach mae'r nifer mwyaf o siaradwyr y Gymraeg mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru, ac yma hefyd mae'r ganran  uchaf o bobl ifanc yn cael addysg yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Ond ar yr un pryd, mae'r newidiadau ieithyddol sy'n digwydd yn y sir, yn ogystal â newidiadau o ran dylanwad Llywodraeth Cymru ar addysg yng Nghymru, yn ei gwneud hi'n amserol i ni ystyried adolygu polisi iaith addysg Cyngor Gwynedd, a chynnal trafodaeth ynghylch pa elfennau o'r polisi presennol sy'n gweithio'n dda, a ble mae angen gwneud unrhyw ddiwygiadau neu addasiadau.

Er mwyn cynnal y drafodaeth hon ar bolisi iaith addysg Gwynedd, mae'n fwriad gan y Cyngor gynnal cyfres o gyfarfodydd ledled yr awdurdod a gyda rhychwant eang o ran-ddeiliaid i drafod sut y gellid gwella a chryfhau'r polisi presennol, a hynny yng nghyd-destun canlyniadau cyfrifiad 2021 a disgwyliadau ieithyddol ac addysgol presennol Llywodraeth Cymru.

**CYFRIFIAD 2021**

Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd 73,560 o bobl (3 oed a hŷn) yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd, sy'n cyfateb i 64.4% o'r boblogaeth. Yn 2011 roedd nifer y siaradwyr yng Ngwynedd yn 77,000 a'r ganran gyfatebol yn 65.4%. Felly mae'r gyfran o bobl sy'n siarad Cymraeg yng Ngwynedd rhwng 2011 a 2021 wedi gostwng o 1%.

# 2. PROFFIL IEITHYDDOL GWYNEDD

Mae ystadegau cyfrifiad 2021 yn dangos fod **86.2%** o blant 3-15 oed Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg. Ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol mae'r ganran dipyn is na hynny. Ar lefel Cymru gyfan, yng Ngwynedd mae'r canran uchaf o bobl ifanc rhwng 3 a 15 oed sy'n siarad Cymraeg. O edrych ar lwyfan ehangach, mae Gwynedd yn fwy llwyddiannus am gynnal ei sefyllfa ieithyddol (o ran y Gymraeg) nag unrhyw ranbarth arall yn y byd, ar wahân i Gatalonia (10 miliwn o siaradwyr). Felly gall Cyngor Gwynedd ymfalchïo yn ei bolisi iaith addysg ar hyd y degawdau diwethaf, gan fod y polisi wedi chwarae rhan allweddol yn y llwyddiant ieithyddol hwn.

**Camau datblygu strategaeth iaith cyfredol Cyngor Gwynedd ym maes addysg:**

Sicrhau fod pob disgybl yn dod yn rhugl ddwyieithog

Cynllunio i gynyddu defnydd rheolaidd o'r Gymraeg

100% o blant Gwynedd yn cael cyfle i siarad Cymraeg a defnyddio'r iaith yn rheolaidd.

Cynllunio i gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n cwblhau eu cymwysterau hyd at 16 oed trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu ddwyieithog

# 3. POLISÏAU HYRWYDDO'R GYMRAEG AC ADDYSG GYMRAEG LLYWODRAETH CYMRU

Wrth adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd, rhaid edrych bellach ar gyd-destun ehangach na rôl a gwaith Cyngor Gwynedd ei hun. Bellach rhaid ystyried y datblygiadau sy'n digwydd ym maes addysg Gymraeg a dwyieithog ar lefel Cymru gyfan, gan fod nifer o gamau statudol ac arloesol yn digwydd ar y lefel genedlaethol.
Fel rhan o Ddeddfwriaeth Addysg 2013, mae hi wedi bod yn ofynnol i awdurdodau lleol gytuno **Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg** (CSCA) gyda Llywodraeth Cymru. Cytunwyd CSCA diweddaraf Cyngor Gwynedd yn 2022 ac mae'n weithredol dros y cyfnod 2023-2033. Yn y ddogfen hon nodir y prif egwyddorion cyfredol sy'n gysylltiedig â pholisïau iaith addysg Cyngor Gwynedd:

<u>Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg</u>

Yn 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ddiweddaraf ar gyfer y Gymraeg, strategaeth iaith a fydd yn cwmpasu'r tri degawd nesaf hyd at y flwyddyn 2050:

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

**Nodau Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr**

| | Nod | Targed |
|---|---|---|
| 1 | Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg | 1 Miliwn erbyn 2050 |
| 2. | Cynyddu defnydd o'r Gymraeg | Defnyddwyr dyddiol o'r Gymraeg yn cynyddu o 10% i 20% |

Pwysleisia'r ddogfen strategol hon bwysigrwydd cynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg. Pwysleisir hefyd fod cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yr un mor bwysig. Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â'r nodau strategol mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn eu hyrwyddo ers nifer o ddegawdau.

## Cwricwlwm i Gymru (2021)

O fewn **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** sy'n amlinellu Cwricwlwm i Gymru, nodir bod y Gymraeg hefyd yn ofyniad gorfodol. Noda'r ddeddfwriaeth sy'n amlinellu'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm newydd i Gymru fod yna (yn ogystal â phedwar diben y cwricwlwm) elfennau mandadol sy'n rhychwantu'r continwwm dysgu 3 i 16 oed, sy'n cynnwys y canlynol:

- **Cymraeg**
- **Saesneg - o 7 oed**. Gall penaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir arfer eu disgresiwn wrth benderfynu a fyddan nhw'n cyflwyno Saesneg i ddysgwyr rhwng 3 a 7 oed, ac i ba raddau. Diben hyn yw hwyluso'r broses o drochi dysgwyr y blynyddoedd cynnar yn y Gymraeg.

Mae disgwyl i strategaethau addysg Cyngor Gwynedd hefyd gymryd i ystyriaeth y dogfennau canlynol gan Lywodraeth Cymru:

Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb Llywodraeth Cymru (2023)

Canllaw gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, atebolrwydd a gwella (Statudol yn 2024)

Yn y dogfennau hyn oll rhoddir dyletswydd ar yr awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru i gynllunio'n briodol ar gyfer cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gallu siarad y Gymraeg ac sy'n gwneud hynny'n ddyddiol.

# 4. BIL Y GYMRAEG AC ADDYSG (CYMRU)

Datblygiad arall yw bwriad Llywodraeth Cymru i roi ar y Llyfr Statud ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â datblygu ymhellach agweddau ar Addysg Gymraeg. Nodir yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth y:

**Bydd y Bil yn cymryd camau i alluogi holl ddisgyblion Cymru i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol.**

Ymhlith y prif gynigion mae:

- Adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn y gyfraith
- Sefydlu system statudol o gategoreiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith
- Dros amser, cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydynt eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig
- Diwygio sut mae awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion er mwyn cyrraedd targedau a osodir gan Weinidogion Cymru
- Gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol, gan gynnwys darpariaeth trochi hwyr

Gellir gweld felly fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg trwy gyfrwng y Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf hyn, a bod rheidrwydd statudol ar i'r awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer y twf hwn.

Un o fwriadau'r Bil fydd troi'r broses o gategoreiddio ysgolion yn un statudol a bydd yn seiliedig ar y ddarpariaeth a'r niferoedd o ddisgyblion a fydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgol, a hynny hyd at 16 oed. Felly yn y dyfodol bydd pob ysgol gynradd ac uwchradd yn disgyn i un o dri chategori. (Defnyddir y rhifau 1, 2 a 3 i ddynodi'r categorïau.)

Yn y cynradd bydd Categori 1 yn cyfeirio at ysgolion sy'n dysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Saesneg, Categori 2 at ysgolion dwy iaith, a Chategori 3 at ysgolion sy'n dysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y sector uwchradd bydd 3 chategori hefyd ond bydd y diffiniad ychydig yn wahanol. Yno bydd pwyslais ar gynyddu'r nifer o feysydd astudio fydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n dilyn cyrsiau hyd at 16 oed trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y Bil hefyd yn deddfu ynghylch y canlynol:

Y rheidrwydd ar i bob corff llywodraethu ysgol lunio bob tair blynedd gynllun cyflawni mewn perthynas â’r Gymraeg a fydd ymysg materion eraill yn gofyn i ysgol nodi faint o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol a hynny yng nghyd-destun categori ieithyddol ac addysgol yr ysgol. Bydd rheidrwydd i bob ysgol gyflwyno’r cynllun i’r awdurdod lleol er mwyn derbyn cymeradwyaeth.


Y rheidrwydd ar i Weinidogion Cymru lunio fframwaith Cendlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg.

Sefydlu Athrofa Dysgu Cymraeg Gendlaethol

Diwygio rhannau o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg a fydd yn seiliedig ar y fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd.

**Amserlen Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru):**



# 5. PROFFIL IAITH ADDYSG GWYNEDD

**Addysg Feithrin**

Mae pob un o leoliadau addysg feithrin o fewn rheolaeth y Cyngor yn lleoliadau sydd yn addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Gosodir sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg yma a sicrheir fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

**Polisi Iaith ysgolion Gwynedd**

**Cynradd**

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd blwyddyn 6. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Ym mlynyddoedd 3-6, rydym yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

**Uwchradd**

Disgwylir gweld dilyniant a pharhad priodol yng nghyfrwng ieithyddol addysgu pob disgybl wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd. Disgwylir i bob disgybl sydd wedi astudio Cymraeg (Iaith Gyntaf) fel pwnc yn yr ysgol gynradd barhau i wneud hynny yn yr uwchradd, a sefyll asesiad/arholiad yn y pwnc ar ddiwedd Blwyddyn 11. Disgwylir i bob disgybl sydd wedi cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol gynradd barhau i wneud hynny yn yr uwchradd, a sefyll asesiadau/arholiadau allanol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Ngwynedd fynediad at ddarpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan ddisgyblion a'u rhieni fynediad i wasanaeth sydd yn gwbl ddwyieithog.

**Y Gyfundrefn Addysg Drochi**

Er mwyn i'r polisi iaith fod yn gynhwysol darperir gwasanaeth arbenigol o fewn y sir sef Y Gyfundrefn Addysg Drochi. Mae chwe safle ar draws y sir yn darparu gwasanaeth trochi i newydd-ddyfodiaid. O ddilyn cwrs trochi dwys yn y Gymraeg am gyfnod o ddeg wythnos, mae'r newydd-ddyfodiaid yn meddu ar sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i ymdoddi a ffynnu yn ôl yn yr ysgolion prif-lif mewn cyd destun ffurfiol ac anffurfiol o fewn cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog Gwynedd.